**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Trwy e-bost

02 Hydref 2017

Annwyl Nick

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)**

Rwy'n falch o roi gwybod ichi fy mod heddiw wedi gosod Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn ffurfiol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â'r Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd â'r Bil. Ddydd Mercher 4 Hydref 2017, byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn i gyflwyno'r Bil.

Efallai y byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Busnes, ar 18 Medi 2017, wedi cytuno y dylid cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer y gwaith craffu, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 9 Mawrth 2018 fan bellaf (Cyfnod 1).

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y broses o graffu ar y Bil, cysylltwch â thîm y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau:
http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/committees/Pages/Committee-Profile.aspx?cid=447

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich cymorth wrth ddrafftio'r Bil ac am y manylion a ddarparwyd ar gyfer y Memorandwm Esboniadol.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565